

## Sul Efe

Cynhelir Sul Efe yn Y Ganolfan, Llanberis rhwng 11.30 ac 1.00 o'r gloch dydd Sul, Tachwedd 17.

Fel y llynedd gobeithiwn gael cwmni ysgolion Sul yr ardal yn y digwyddiad hwn, a bydd gwahoddiad yn cael ei roi i bob un ohonynt.

Yn wahanol i'r llynedd, ni fydd taith gerdded y tro hwn ond pawb i ddod i'r Ganolfan ar eu hunion.

## Capel Coch

Llwyddwyd i gynnal y cyfarfod gyda chynrychiolwyr yr Henaduriaeth yn Capel Coch nos Fercher diwethaf.

## Cinio Cawl Capel

Ar ôl yr Oedfa Deulu yn Capel Coch fore Sul, Tachwedd 24, bydd gwahoddiad i bawb aros i ginio. Cawn gawl i ginio er mwyn codi arian at Apêl Haiti Undeb yr Annibynwyr 2013-2014. Daw rhagor o fanylion eto.

### Y mis nesaf - Deiniolen

#### Hydref 20

10.00 a.m. - Oedfa Deulu  
5.00 p.m. - Y Gweinidog

#### Hydref 27

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg Trefor Jones

#### Tachwedd 3

9.30 a.m. - Oedfa Deulu  
10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Gweinidog

## Plentyn y Nadolig

Byddwn yn casglu bocsys esgidiau efo anrhegion i blant eleni eto at Ymgyrch Plentyn y Nadolig. Bydd angen i'r bocsys fod yn barod erbyn dydd Sul, Tachwedd 17.

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Nos Fercher, Hydref 23:** Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Hydref 27:** Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch a'r Parchg Trefor Jones am 5.00 o'r gloch.

**CAPEL COCH A NANT PADARN**  
**Nos Fercher, Hydref 23:** Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Hydref 27:** Y Gweinidog am 10.00 a 5.00 o'r gloch. DIM Ysgol Sul.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Hydref 27:** Y Gweinidog am 2.00 o'r gloch.

### Y mis nesaf - Llanberis

#### Hydref 20

10.00 a.m. - Y Parchg Iorwerth Jones Owen  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Mr Richard Lloyd Jones

#### Hydref 27

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
**Dim Ysgol Sul**  
5.00 p.m. - Y Gweinidog

#### Tachwedd 3

10.00 a.m. - Mr Ifor Glyn  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg Marcus Robinson



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris  
Rhif 563 – Dydd Sul, 20 Hydref 2013

## Twyllwr da

Os ydach chi am dwyllo, gwnewch job iawn ohoni. Dyna f'ymateb yn hwyr nos Wener wrth dderbyn un arall o'r negeseuon ffug a gaf o bryd i'w gilydd trwy bost y cyfrifiadur.

Mae gwahanol fathau o negeseuon ffug, ond y mwyaf cyfarwydd ar hyn o bryd yw'r rhai sy'n honni dod oddi wrth ffrindiau sydd mewn helbul dramor. Byrdwn y neges yw bod rhywun wedi ymosod arny'n nhw a dwyn eu harian a'u pasbort, a bod angen i ni anfon arian atyn nhw i'w helpu i ddod adref mor fuan â phosibl. Y tro cyntaf i mi weld neges felly flwyddyn neu ddwy yn ôl gwyddwn ar unwaith mai twyll oedd y cyfan am fod y neges yn Saesneg, a fyddai'r ffrindiau hynny byth wedi anfon neges Saesneg ataf fi.

Ond yn ddiweddar, mae'r twyllwyr wedi sylweddoli bod y fath beth â'r Gymraeg, a'r negeseuon o'r herwydd yn cyrraedd yn Gymraeg erbyn hyn. Nid mod i'n cael fy nhwyllo gan hynny chwaith gan fy mod i – a phawb arall sy'n eu derbyn gobeithio – yn deall yn erbyn hyn mai twyll a chelwydd yw'r cyfan.

Ond fedrwn i ddim peidio â gwenu'r noson o'r blaen wedi i mi gael neges a oedd yn honedig wedi ei hanfon gan ŵr a gwraig o Gaernarfon. Roedd y neges yn Gymraeg, ond Cymraeg carbwl iawn; y math o Gymraeg y mae peiriant cyfieithu (oes, mae'r fath beth i'w gael, cofiwch!) yn ei gynhyrchu. Doedd gan bwy bynnag a anfonodd y neges ddim

gobaith o dwyllo neb o gofio mai cyfieithydd yw'r wraig dan sylw. Fel y dywedais, os ydach chi am dwyllo gwnewch y job yn iawn! Peidiwch â disgwyl i bobl gredu y gallai cyfieithydd proffesiynol anfon neges mor wallus ei iaith.

Nid fy mod yn cymeradwyo twyllo, wrth gwrs; dim ond dweud bod rhaid gwneud pob ymdrech i gael popeth yn iawn er mwyn cael unrhyw siawns o lwyddo. Sylwch chi erioed bod Iesu Grist yn dweud pethau annisgwyl ar brydiau? Mae'n dewis dweud pethau sy'n swnio'n od iawn. Fyddai neb wedi disgwyl ei glywed yn sôn wneud cyfaill o rywbeth anghyfiawn, ond dyna a wnaeth wrth sôn am y 'mamon anghyfiawn'. A chan fod y sarff yn Y Beibl yn cael ei chysylltu o'r dechrau â'r diafol a bod seirff yn beryglus a gwenwynllyd, mae'n annisgwyl bod Iesu'n dweud wrth ei ddisgyblion am fod yn 'doeth fel seirff'. Doedd Iesu ddim yn ofni defnyddio pethau drwg er mwyn gwneud rhyw bwynt arbennig o fewn ei ddisgydiaeth.

Mentrwn ddweud y dylem fod mor ddoeth â'r twyllwr da. Mae hwnnw – yn wahanol i bwy bynnag a anfonodd y neges ataf fi – yn gwneud ei waith cartref ac yn gofalu nad oes gwendid amlwg yn yr hyn a ddywed. Ac ym mhopeth a wnawn ninnau yng ngwaith y Deyrnas, mae angen gofal a sylw manwl er mwyn i wneud y cyfan mor gywir â phosibl. Pa obaith llwyddo wrth wneud pethau'n flêr a difeddwl?

## Gofalaeth Unedig Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Croeso i oedfaon Sul arall. Gweddiwn am fendith Duw ar ein haddoliad.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Iorwerth Jones Owen, Caernarfon ac am 5.00 o'r gloch gan Mr Richard Lloyd Jones, Bethel. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Byddaf fi'n arwain yr Oedfa Deulu am 10.00 o'r gloch pan gawn wasanaeth Diolchgarwch, a'r oedfa am 5.00 o'r gloch hefyd.

Nid oes oedfa yn Rehoboth.

## Cofion

## CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch echnos ac unwaith eto roedd yn dda gweld criw

da wedi dod ynghyd. Cafwyd noson hwyliog arall, a chyfle yng nghanol hwyl y gemau i gael clywed Andrew y tro hwn yn sôn am y ddau ddisgybl yn cyfarfod â Iesu Grist ar y ffordd i Emmaus wedi'r Atgyfodiad. Diolch i Andrew a Gwenno a Dafydd am eu help unwaith eto.

## Diolchgarwch Llanberis

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch plant Capel Coch fore Sul diwethaf. Diolch yn fawr iawn i athrawon a rhieni i'r Ysgol Sul am eu cefnogaeth a'u cymorth i baratoi ar gyfer y gwasanaeth a diolch i'r plant a'r ieuencid am wneud eu rhan.

Ar ddiwedd yr oedfa cafwyd paned a chacen a sgwrs a diolch am yr help i baratoi a gwneini'r cyfan.

Yn ystod y Gwasanaeth derbyniwyd bwydydd yn rhodd at y Banc Bwyd yng Nghaernarfon gan fod cyfeiriad yn yr oedfa at waith y banciau bwyd sydd i'w cael mewn sawl tref a dinas erbyn hyn. Aed â'r bwyd i gyd i Ganolfan Gwyrfaï ar Stad Cibyn, sef capel yr Eglwys Bencostalaidd lle trefnir gwaith y Banc Bwyd a lle dosberthir y bwyd. Diolch unwaith eto am bob cyfraniad at y Banc Bwyd.

Bydd yna oedfa Ddiolchgarwch yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch ddydd Sul nesaf, Hydref 27.

## Deiniolen

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yn Neiniolen nos Sul diwethaf, a diolch yn fawr i'r aelodau a phlant yr Ysgol Sul a gymerodd ran yn yr oedfa.

Diolch ymlaen llaw hefyd i'r plant a fydd yn cymryd rhan mewn gwasanaeth Diolchgarwch arall am 10.00 o'r gloch heddiw.

## Cyfarfod Misol

Cynhelir Cyfarfod Misol Henaduriaeth Arfon yng Nghapel y Rhos, Llanrug am 3.00 o'r gloch a 6.30 o'r gloch ddydd Mawrth nesaf yma, Hydref 22.

Gwasanaeth ordeinio blaenoriaid fydd yr oedfa am 6.30 o'r gloch pan gaiff Mrs Falmai Pritchard ei hordeinio i fod yn un o flaenoriaid Capel Coch.

## Coleg y Bala ar Daith

Aeth saith o hogiau CIC Llanberis i Barc Glasfryn, Y Ffôr ddoe i'r diwrnod o weithgareddau a drefnwyd gan weithwyr Coleg y Bala. Roeddem yn rhannu bws â chriw o Sir Fôn, Y Felinheli, Llanrug a Chaernarfon, ac roedd dros 60 o bobl ifanc yno i fwynhau'r gweithgareddau a oedd yn cynnwys cartio, bwa a saeth a bowlïo deg. Cafwyd hefyd bob math o gemau hwyliog, a thrwy'r dydd roedd yna sôn am y newyddion da am Iesu Grist, ac am Grist ei hun. Diolch yn fawr i Andrew am drefnu i'r hogiau gael mynd yno.

## Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon yng Nghanolfan Capel Curig (dan nawdd Eglwys Annibynnol Nantybenglog) am 7.00 o'r gloch nos Fawrth, Hydref 29.

## Angladd

Cydymdeimlwn â theulu a chyfeillion Mrs Elizabeth Hughes, 1 Y Bwthyn, Deiniolen, a fu farw yn 92 mlwydd oed yn Ysbyty Gwynedd ddydd Sul, Hydref 13. Cynhaliwyd gwasanaeth angladd yn ei chartref ac ym Mynwent Machpela ddydd Iau, Hydref 18 dan arweiniad y Gweinidog. Un o Ddinorwig oedd Mrs Hughes yn wreiddiol, ond bu'n byw yn Neiniolen ers iddi briodi â Hughie Hughes, ac yna wedi ei gadael yn weddw â Johnny Hughes. Roedd yn weddw am yr ail waith ers 8 mlynedd

erbyn hyn. Bu'n ddibynnol ar gymorth gofalwyr a chymdogion, a chydymdeimlwn yn arbennig â Mrs Mona Parry a phawb a fu'n driw iddi.

## Cyfarfod Blynyddol Efe

Cynhelir cyfarfod Blynyddol Cynllun EFE yng Nghapel y Rhos, Llanrug am 7.00 o'r gloch, nos Lun, Tachwedd 4. Mae croeso i bawb i'r cyfarfod hwn. Wnewch chi barhau i weddio dros lwyddiant y gwaith os gwelwch yn dda.

## Y Parchg Meirion Lloyd Davies

Mae'n siwr bod llawer ohonoch wedi clywed am farwolaeth y Parchg Meirion Lloyd Davies, Penrhos, Pwllheli ddydd Llyn diwethaf.

Yn Llanberis y dechreuodd Mr Davies ei weinidogaeth pan ddaeth yn wr ifanc i gapeli Gorffwysfa a Phreswylfa. Symudodd oddi yma i gapel Salem Pwllheli, ac yno yr arhosodd wedyn ar hyd ei weinidogaeth nes iddo ymddeol, ac yntau erbyn hynny yn weinidog ar gylch o eglwysi.

Parhaodd y cysylltiad â Llanberis ar hyd y blynyddoedd, a deuai yma'n rheolaidd i wasanaethu ar y Sul. Daliodd i ddod yma wedi iddo ymddeol, ac roedd bob amser yn falch o gael dod i Gapel Coch y blynyddoedd diwethaf hyn.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w briod, Mair, a'u tair merch a'u teuluoedd hwythau yn eu colled fawr.

Bu'r Parchg Meirion Lloyd Davies yn amlwg iawn o fewn ei enwad; ac yn ogystal â bod yn Olygydd *Y Goleuad* a *Cristion*, bu'n cyflawni prif swyddi'r Gymdeithasfa a'r Cyfundeb, yn cynnwys Llywydd y Cyfundeb.